PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Cyfarfod: 21 Ebrill 2004

Lle: Ystafell y Cyngor

Presennol: Dr Einir Young (Cadeirydd), Delyth Morris, Densil Morgan, Robert Pope, Eifion Lloyd Jones, Deri Tomos, Eifiona Thomas Lane, Gareth Roberts, Bethan Wyn Jones, Llion Jones, Cen Williams, Margaret Deuchar, Delyth Prys, Dawi Griffiths.

Ymddiheuriadau: Menna Morgan, Delyth Murphy, Arne Pommerening, Meri Huws, Enlli Thomas, Iestyn Pierce, Eddie Williams, Wil Griffith, Nia W. Powell, Geraint Hughes, Geraint Tudur, Gwyn Lewis, Carys Wyn Roberts, Wyn Thomas, Gwenda Rhian Jones, Gwenno Ffrancon, Dai Rees Jones, Mairwen Owen, William Lewis, Stephen Rees.

1. LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchwyd Dr Catrin Haf Williams o'r Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol gan y Cyfarwyddwr ar gael ei phenodi'n ddarlithydd yng Ngholeg Keble, Rhydychen.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd 4 Chwefror 2004 fel cofnod cywir.

3. MATERION Y CYFARWYDDWR

Nododd y Cyfarwyddwr ei bod am gyfeirio at dri mater yn arbennig.

(i) Sefyllfa gyfredol Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Tynnodd sylw at y cais a luniwyd gan y Bwrdd Dysgu Trwy Gyfrwng y Gymraeg i hybu addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd bod amcanion y cais hwn yn ddeublyg. Yng nghyd-destun ailstrwythuro gofynnir am gyllid i gynnal arolwg o ymarferoldeb gwahanol fodelau ar gyfer creu system addysg uwch gynaladwy drwy gyfrwng y Gymraeg (£100,00). Hefyd, o fewn yr agenda cydweithio mae'r cais yn cynnwys nifer o elfennau y gellir eu datblygu neu (os ydynt yn bodoli eisoes) eu hehangu, gan arwain at dwf pendant yn nifer y cofrestriadau cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynlluniau hyn yn gydnaws ag unrhyw strwythur a awgrymir ar gyfer y tymor hir o ganlyniad i'r arolwg ymarferoldeb y cyfeirir ato uchod (£570,000).

Aeth ymlaen i sôn am y cyfarfod a gynhelir i aelodau'r Ysgol yn **Oswalds ar 10 Mai** i drafod yn fanylach y gwahanol opsiynau ar gyfer creu trefn gynaladwy o addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithir y bydd copïau o'r cais y cyfeiriwyd ato uchod, ynghyd â dogfennau eraill, wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod i'r rhai fydd yn dod. Pwysleisiodd mai diwrnod i **NI** fydd hwn a gobeithio y gallwn ddechrau gyda meddwl agored.

(ii) Niferoedd myfyrwyr ac amserlennu

Nodwyd fod tair problem yn gysylltiedig â denu myfyrwyr i wneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth Gymraeg:

a) Modiwlau gorfodol/craidd yn ymddangos yn Saesneg ar y daflen gofrestru, er bod fersiynau Cymraeg ar gael. Felly, roedd rhai myfyrwyr newydd, nad oeddent yn gyfarwydd â'r drefn, yn cael eu colli drwy gamddealltwriaeth.
b) Newidiadau mewn trefniadau cofrestru, gyda phwyslais ar i fyfyrwyr gofrestru yn eu hadrannau. Yn y gorffennol, roedd pob adran yn bresennol yn neuadd PJ ar ddiwrnod cofrestru Blwyddyn 1 i egluro ei darpariaeth. Collir y cyfle hwnnw i raddau helaeth gyda'r drefn newydd.
c) Y symudiad araf a welwyd dros y blynyddoedd yng Nghyfadran y Celfyddydau i annog myfyrwyr newydd i wneud '3 phwnc' yn eu blwyddyn gyntaf. Er bod y system fodiwlau i fod i arwain at FWY o ddewis i fyfyrwyr, yn ymarferol mae'n golygu eu bod yn cael addysg lawer iawn mewn CYFYNG nag yr oeddent yn ei chael mewn blynyddoedd a fu.

(iii) Marchnata a delwedd

Gofynnodd y Cyfarwyddwr i'r Is-Gyfarwyddwr, Delyth Prys, ymdrin â'r mater hwn.

Dosbarthwyd adroddiad byr ar gyfarfod a gynhaliwyd ar 2/4/04 i drafod Marchnata/Recriwtio myfyrwyr gydag Einir Young, Delyth Prys, Carys Roberts, Elinor Elis-Williams a Gareth Roberts yn bresennol. Tynnwyd sylw yn yr adroddiad at y sefyllfa bresennol o ran stondin y Brifysgol yn eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol ac ymdriniwyd â rhai syniadau i wella a bywiogi'r ddarpariaeth a geir ar hyn o bryd. Talwyd teyrnged hefyd i Carys ac Elinor sydd wedi ymroi'n ddygn i ddarparu arddangosfeydd yn yr eisteddfodau gydag adnoddau cyfyngedig.

Ysgogodd yr adroddiad drafodaeth bellach ymysg yr aelodau'n bresennol. Ailgodwyd y syniad o noddi Medal Gwyddoniaeth Eisteddfod yr Urdd a nodwyd y byddai cyllid o £200 ar gael o gronfa PAG. Gan ei bod yn rhy hwyr i noddi cystadleuaeth yn Eisteddfod 2004 awgrymwyd y dylid noddi cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005. Dywedodd Eifion Lloyd Jones bod y rhestr testunau ar fin mynd i'r wasg ac y bydd angen gweithredu'n syth ar y syniad. Cytunodd y Cyfarwyddwr i wneud hynny'n ddiymdroi.

Nodwyd hefyd y byddai'n syniad da i fynd ag offer fideo i'r eisteddfod a rhoi cyfle i bobl ifanc ddefnyddio'r offer ffilmio o amgylch y stondin. Tynnwyd sylw hefyd at lansio pecyn newydd CYSGLIAD yn yr Urdd gan Ganolfan Bedwyr

Gofynnwyd hefyd a fyddai'n ymarferol cael stondin ar faes y Sioe Frenhinol yn ogystal. Nodwyd bod gan yr Ysgol Gwyddorau Amaeth a Choedwigaeth stondin yno eisoes ac awgrymwyd y dylid cysylltu ag Ioan ap Dewi. Efallai y byddai'n bosibl i'r Ysgol gael cornel o stondin SAFS.

4. **ADRODDIAD PAG**

Cafwyd adroddiad gan Gadeirydd PAG, Yr Athro Gareth Roberts. Tynnodd sylw at y materion canlynol:

(i) Cylchlythyr HEFCW - Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg

Derbyniwyd y llythyr uchod oddi wrth HEFCW yn gwahodd sefydliadau i gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg. Nodwyd y bydd angen i adrannau lunio ceisiadau erbyn 24 Mai a bydd y rhain wedyn yn cael eu hystyried gan PAG yn ei gyfarfod ar 28 Mai. Yna bydd PAG yn mynd ati i gaboli'r ceisiadau a dderbynnir cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Cyllido erbyn y dyddiad cau, sef 18 Mehefin. Nodwyd bod y cynllun yr un fath ag o'r blaen o safbwynt cyllidol a'i bod yn ofynnol i ymgeiswyr am y cymrodoriaethau fod wedi cwblhau eu PhD. Pwysleisiwyd na fyddai'n bosibl gwyro oddi wrth y rheol hon.

(ii) Pwyllgor Llywio'r Bwrdd Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg

Nodwyd y bydd y Pwyllgor Llywio'n mynd ati'n fuan i lunio strategaeth dymor hir ac y bydd ganddo amserlen dynn i wneud hynny dros yr haf.

(iii) Ymweliad Yr Athro John Lewin

Adroddwyd bod Yr Athro John Lewin, sydd wedi cael ei gomisiynu i lunio adroddiad ar gydweithio pellach rhwng PCB a PC Aberystwyth, wedi ymweld â Bangor cyn y Pasg i gwrdd â Phenaethiaid Ysgolion ac Adrannau i weld beth yw'r posibiliadau o ran cydweithio. Cyfarfu â'r Athro Gareth Roberts, Dr Einir Young a Dr Cen Williams, i drafod materion cyfrwng Cymraeg a chydweithio yn y maes hwnnw rhwng y ddau sefydliad. Disgwylir i adroddiad Yr Athro Lewin gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

5. ADRODDIAD CANOLFAN BEDWYR

Cafwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Canolfan Bedwyr, Dr Cen Williams, a thynnodd sylw at y materion canlynol:

(i) Penodiad Newydd

Adroddwyd bod Dr Nigel Ruddock, gwyddonydd sydd wedi troi'n ieithydd, wedi cael ei benodi i weithio ar broject technoleg llais WISPA.

(ii) Symud Cartref

Nodwyd y bydd Canolfan Bedwyr yn symud o Aethwy i Fryn Haul (Oswalds) yn ystod yr wythnosau nesaf.

6. UNRHYW FATER ARALL

Tynnwyd sylw at ddarlith a draddodir ar 28 Ebrill gan Yr Athro Colin Baker yn y gyfres o ddarlithoedd arbennig sy'n ymdrin â 'Dwyieithrwydd yn yr 21ain ganrif: Cymru a thu hwnt'.

Nodwyd bod Meg Elis a Delyth Prys wedi cael trafodaeth â Liz du Pré o'r Uned Dyslecsia. Rhoddwyd sylw arbennig i'r diffyg profion yn Gymraeg ar gyfer oedolion dyslecsig. Nodwyd bod hyn yn destun project ymchwil sylweddol a chredid y dylai'r Ysgol, yn ogystal â Swyddog Anabledd y Brifysgol, bwyso am gyllid i gyflawni gwaith o'r fath. Awgrymwyd y dylid cysylltu â'r Ysgolion Seicoleg ac Addysg i ofyn iddynt ystyried beth oedd yn ymarferol bosibl yn y cyfeiriad hwn. Efallai y gallai'r ddwy ysgol gyflwyno cais ar y cyd am gyllid grant i wneud ymchwil i'r maes.

Tynnwyd sylw at newidiadau arfaethedig i'r drefn Wardeniaid Neuaddau. Mynegwyd pryder mai dim ond 3 o fyfyrwyr-diwtoriaid fyddai'n gyfrifol am Neuaddau JMJ a Rathbone a bod i hynny oblygiadau ieithyddol ymysg pethau eraill. Penderfynwyd y dylai'r Ysgol ysgrifennu i bwyso am i bob tiwtor a benodir ar y safle hwn fod yn ddwyieithog ac y dylai 2 diwtor (un gwrywaidd ac un benywaidd) fod yn gyfrifol am JMJ.

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Dr Einir Young fel Cyfarwyddwr a Delyth Prys fel Is-Gyfarwyddwr. Diolchwyd yn swyddogol i'r ddwy gan Dr Cen Williams am eu gwaith a'u cyfraniad sylweddol er budd yr Ysgol a gofynnwyd iddynt ystyried sefyll drachefn. Eiliwyd hyn gan Eifion Lloyd Jones.

Mae modd i ddeiliaid presennol y swyddi eu dal am dymor pellach o ddwy flynedd. Fodd bynnag y drefn swyddogol yw y bydd llythyr yn cael ei anfon yn fuan at aelodau'r Ysgol yn gwahodd enwebiadau am y ddwy swydd ond yn nodi yn y llythyr bod y Cyfarwyddwr a'r Is-Gyfarwyddwr presennol yn ystyried ailsefyll.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf rywbryd ym mis Hydref - y calendr heb ei gyhoeddi eto.